



Lwfans Myfyrwyr Anabl - diwygio trefniadau caffael – ymateb i gwestiwn dilynol

Mawrth 2022

Ymhellach i'r cwestiynau a'r atebion a gyhoeddwyd ddydd Mercher 16 Mawrth, rydym wedi cael rhai cwestiynau dilynol.

Hoffem nodi unwaith eto mai'r unig gwestiynau y gallwn eu hateb ar hyn o bryd yw cwestiynau sy'n ymwneud â'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod y diwrnod i gyflenwyr. Ni allwn ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r manylion a fydd yn dilyn yn ystod camau diweddarach y broses gaffael.

Fodd bynnag, rydym wedi cael sawl cwestiwn ynghylch cyfluniad cyflenwyr ac ynghylch y ffaith na fydd mwy na dwy lot yn cael eu dyfarnu i gyflenwyr. Yn benodol, mae'r cwestiynau yn gofyn am eglurhad ynghylch is-gontractwyr neu grwpiau o is-gontractwyr sy'n rhan o gynigion am fwy nag un lot ac sy'n rhan o fwy nag un cynnig am yr un lotiau.

Ateb:

Gall pob cyflenwr gynnig am gynifer o lotiau ag y maent yn dymuno. At hynny, gall cyflenwyr fod yn rhan o fwy nag un cynnig am yr un lot.

Dim ond uchafswm o ddwy lot y gellir eu dyfarnu i unrhyw gyflenwr unigol, boed y cyflenwr hwnnw'n brif gontractwr/contractwr arweiniol, yn is-gontractwr allweddol neu'n aelod o gyd-fenter, consortiwm neu gyfrwng at ddibenion arbennig fel yr eglurir ymhellach isod.

Bydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol hefyd os bydd cyflenwr yn rhan o grŵp perchnogaeth, a bydd y cyfyngiad ynghylch uchafswm o ddwy lot yn berthnasol ar draws pob endid grŵp (gan gynnwys rhiant-endidau).

Bydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol hefyd i gyflenwyr cysylltiedig, a/neu aelodau cyd-fenter, consortiwm neu gyfrwng at ddibenion arbennig, i'r graddau os oes gan gyflenwr fuddiant perchnogaeth o 10% neu fwy mewn cyflenwr arall neu gyflenwr arfaethedig, bydd y cyfyngiad ynghylch uchafswm o ddwy lot yn berthnasol ar draws y cwmnïau cysylltiedig hynny.

Rhaid i'r prif gontractwr nodi pob is-gontractwr allweddol yn rhan o'r broses gynnig. Bydd is-gontractwr allweddol yn cyflawni o leiaf 20% o werth y cynnig arfaethedig.

Os, wrth ddyfarnu'r lotiau, y bydd cyflenwr (fel prif gontractwr/contractwr arweiniol, is-gontractwr allweddol, aelod o gyd-fenter, consortiwm neu gyfrwng at ddibenion arbennig) yn rhan o gynigion y mae dwy lot wedi'u dyfarnu iddynt yn barod, ni fydd unrhyw gynigion pellach y mae'r cyflenwr hwnnw yn rhan ohonynt yn cael eu hystyried.

Diwedd